

# BEDDGELERT

## Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd.

# Argraffiad

Argraffiadau: - Fersiwn Terfynnol

**Chambers Conservation Ltd**
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239
Cyfeiriad cofrestredig:  Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

# Cynnwys

**Y Rhan Gyntaf**, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth.


1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
- 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Trosolwg
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Ardaloedd Cymeriadol
- 5.4 Deunyddiau a manylion
- 5.5 Ffiniau
- 5.6 Nodweddion, manylion ac arwynebau eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth

8.0 Cyfarwyddyd Erthygl 4

9.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

10.0 Asedau Dynodedig Eraill

11.0 Bioamrywiaeth

**Yr Ail Ran**, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.


1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB
2.0 Deall y Materion
    2.1 Cyflwr
    2.2 Adeiladau mewn Perygl
    2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
    3.1 Asesu Ffiniau
    3.2 Diogelwch Deddfwriaethol
    3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
    3.4 Cynaliadwyedd
    3.5 Bioamrywiaeth
4.0 Ymgynghoriad


**Atodiadau**


A. Ffynonellau

B. Cyfarwyddyd Erthygl 4.



# Y RHAN GYNTAF: GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Cyflwyno a Pholisi Cynllunio**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol.Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd  â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.

1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**, ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

## 1.2 Golwg cyffredinol ar yr ardal gadwraeth

1.2.1 Diffinnir hyd a lled ardal yr astudiaeth yn rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 02), ond cynhwyswyd y cyffiniau agos (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd gerllaw) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn addas.

1.2.2 Beddgelert yw'r unig Ardal Gadwraeth yn Eryri â chyfarwyddyd Erthygl 4, sy'n dileu hawliau datblygu caniadedig. Gweler adran 8.0 a'r ddogfen gyflwynol am ragor o wybodaeth.

**Lleoliad a Gosodiad**

1.2.3 Mae Beddgelert yn bentref bychan yng Ngwynedd. Mae ym Mharc Cenedlaethol Eryri, tuag 8km i'r gogledd o Borthmadog. Mae'n gysylltfan o bwys ar gyffordd ffyrdd o Gaernarfon (A4085), Capel Curig (A498 – gogleddol) a Phorthmadog (A498 – deheuol). Mae'r ffyrdd yn cydgyfarfod yng nghanol y pentref, gan groesi Afon Colwyn ychydig i'r gogledd o'r eglwys.


1.2.4 Mae'r pentref wrth gydlifiad Glaslyn a Cholwyn. Mae'r afonydd yn ymgyfuno, yna'n mynd tua'r de i geunant serth, enwog Aberglaslyn. Amgylchynir Beddgelert gan lethrau serth, gan arwain at rai o fynyddoedd



**01** Beddgelert o'r llwybr i Fynydd Sygun (2021).

uchaf Eryri. I'r gorllewin ceir crib Hebog a Moel Hebog, ac i'r gogledd Craig Wen, a'r Aran. I'r dwyrain, Mynydd Sygun a Chnicht y tu hwnt.

1.2.5 Dyddiad dynodi: 1974




Ardal Gadwraeth Bresennol

1:6000 ar A4

**02** Ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Cyfyngid anheddu Celtaidd a Chanoloesol ym Meddgelert i gyffiniau'r cynbriodry, lle sefydlwyd cymuned grefyddol gynnar. Mae'r elfennau gweddilliol yn weladwy, gan gyfrannu at eu gwerth hanesyddol. Buasai peth anheddu cynnar ynghylch Pont Beddgelert, ond ni wyddys neu ni ddogfennir llawer am hyn, gan roi i'r ardal werth tystiolaethol mawr. Mae elfennau a golygfeydd pwysig yn dod â diffiniad i hyn, gan gynnwys:

- Eglwys Fair ac ardal y priordy cynnar, ynghyd â golygfeydd pwysig sy'n dangos yr ardal yn ei osodiad.
- Tŷ Isaf (Y Priordy), sy'n cyfleu graddfa ac agosrwydd y tyddynnod cynnar ac afonydd Colwyn/Glaslyn.

2.1.2 Daeth dyfodiad artistiaid a thwristiaid pictwrésg i ddiffinio'r pentref ers diwedd y 18fed ganrif, gan ategu gwerth cymunedol ac esthetaidd mawr. Mae elfennau a golygfeydd pwysig yn dod â diffiniad i hyn, gan gynnwys:

- Gwesty'r Royal Goat a gweddillion tai allan a thir cysylltiedig.
- Y casgliad o adeiladau'r 19eg ganrif i'r gogledd o Bont Beddgelert a'u perthynas â hi.
- Golygfeydd o Eglwys Fair a'r pentref o'r de.
- Bedd Gelert a golygfeydd cysylltiedig.

2.1.3 Mae gosodiad tirwedd a thirffurf Beddgelert yn hanfodol i'w ddiddordeb arbennig, gan ategu datblygiad y pentref a dyfodiad ymwelwyr ers adegau cynnar, a ffurfio sylfaen i werth esthetaidd mawr y cyfan. Mae golygfeydd tua'r llethrau o amgylch ac oddi wrthynt, ac o'r de tuag Eglwys Fair, yn hanfodol ar gyfer yr ymdeimlad o le, fel y mae'r golygfeydd tua glannau'r afonydd ac oddi wrthynt. Clustnodir y golygfeydd hyn yn benodol yn ddiweddarach yn yr arfarniad hwn. Golygfeydd o bwys sy'n dangos y berthynas hon yw:

- Golygfeydd o'r anheddiad o'r llwybr i Fynydd Sygun.
- Golygfeydd o gyfeiriad Aberglaslyn, gan ddangos yr eglwys a'r pentref yn eu cyd-destun.
- Golygfeydd ar hyd Rhes Sygun Tua Mynydd Sygun.



**03** Eglwys Fair, gan ddangos peth o'r adeiladwaith cynnar (2021).



**04** Plas Colwyn (2021).

2.1.4 Mae'r anheddiad presennol ym Meddgelert yn adlewyrchu dwy ganrif o ganolbwyntio ar dwristiaeth. Mae'r brif dreftadaeth adeiledig yn cadw cyfran helaeth o bensaernïaeth a manylion dechrau a chanol y 19eg ganrif, gan gynyddu gwerthoedd cymunedol, esthetaidd a hanesyddol. Mae elfennau pwysig yn cynnwys:

- Y casgliad o adeiladau'r 19eg ganrif i'r gogledd o Bont Beddgelert a'u perthynas â hi, gan gynnwys Plas Colwyn a'r Prince Llywellyn.
- Gwesty'r Royal Goat.
- Tai rhes o ddechrau'r 19eg ganrif, yn enwedig yn Stryd Gwynant a Stryd yr Eglwys, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd cynnar cloddio copr a diwydiannau cysylltiedig.




**05** Map degwm Beddgelert, 1840.



**06** Ysgythriad o 'The Beauties of England and Wales' Wise, o ddarlun gan J.F. Neale, 1814. Tŷ Isaf ar y dde.

# 3.0 Llinell Amser Hanesyddol

**Cynhanes-yddol**

3.1.1 Trafodir hanes Beddgelert yn fanwl iawn mewn mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod roi dim ond cyd-destun.

3.1.2 Tybir bod caer bwysig iawn Dinas Emrys, tua 2km i'r gogledd-ddwyrain o'r pentref, yn cynnwys gweddillion o'r cyfnodau Cynhanesyddol, Rhufeinig, Ôl-rufeinig a Chanoloesol.[1] Y mae'n safle llawn dirgelwch, yn gysylltiedig â hanes Gwrtheyrn ac Emrys yn ôl Historia Brittonum y 9fed ganrif.[2] Mae'r gweddillion yno'n cynnwys gwaelod gorthwr hirsgwar, a adeiladwyd, efallai, gan Llywelyn ab Iorwerth i amddiffyn y tiroedd pori uchel, helaeth a reolai yn yr ardal yn y 12fed ganrif a'r 13eg.[3]

3.1.3 Cofnodwyd amryw weddillion cynhanesyddol yn yr ardal, gan gynnwys anheddau cytiau crynion yn Oerddwr Uchaf (ychydig i'r gogledd o'r fferm a fu'n fan geni William Francis Hughes, y bardd 'William Oerddwr'). Cofnodir rhagor o weddillion yn Afon Goch, tua 2.5km i'r de o'r pentref ar dir rhwng Moel Hebog a Bwlch Aberglaslyn, yn ogystal â darganfyddiadau o'r Oes Efydd i'r de o'r eglwys.[4] Dengys hyn y bu gweithgaredd eang ar dir uwch, o leiaf.

3.1.4 Yn ogystal â thystiolaeth yn Ninas Emrys, awgryma tystiolaeth ffordd Rufeinig yn y gorllewin, yn cysylltu Segontium a Tomen y Mur, a chloddio copr a mwynau, hefyd.

**Y Priordy**

3.1.5 Noda Gresham ddichonoldeb anheddu ynghylch cydlifiad yr afonydd cyn gynhared â'r 6ed ganrif, ond daw'r cofnodion cyntaf o'r 13eg,[5] pan gofnoda Gerallt Gymro gymuned neu anheddiad crefyddol.[6]

3.1.6 Ymunodd yr anheddiad hwn â'r Urdd Awstinaidd tua'r flwyddyn 1220. Dyma pryd yr adeiladwyd y priordy o garreg raean, wedi'i chloddio ym Môn, efallai, a'i chludo i Feddgelert ar hyd afon Glaslyn.

3.1.7 Llosgwyd yr eglwys yn ystod rhyfeloedd Edward ym 1283, fe ddichon, ond ymddengys na ddifrodwyd fawr ddim arni. Aeth y priordy ar i waered o ganol y 14eg ganrif ymlaen. Difrodwyd yr adeiladau gan dân drachefn tua



**07** Yr Wyddfa a Dinas Emrys o uwchlaw Beddgelert tua 1799-1800, J.M.W. Turner tua 1799. Tate Gallery - CC-BY-NC-ND 3.0 (Trwydded anwladol.)



**08** Ysgythriad (LlGC trwy Wikimedia Commons), yn dangos yr eglwys a Gwesty'r Goat y tu draw, bythynnod a rhan gynnar y Saracen's Head, tua 1845.

[1] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=295
[2] Lynch, Frances, A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd, HMSO, 1995, p.128.
[3] Voelcker a Davidson, 2012, p.3
[4] https://www.archwilio.org.uk/arch/query/page.php?watprn=GAT3361&dbname=gat&tbname=core&sessid=CHl2r0x93nw&queryid=Q764148001641476744
[5] Gresham, C. A. (1969), Parish of Beddgelert, yn Trtafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, cyf.30, tt. 21-28
[6] Ibid.

**Ers y Diddymiad**

1432, ac erbyn y Diddymiad perthynai i abaty Benedictaidd Bisham yn Berkshire. Yna fe'i dychwelwyd i'r Goron ac fe'i gwerthwyd.

3.1.8 Rhaid mai bychan iawn oedd yr anheddiad yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r priordy, ar wahân i'r eglwys, yn adfeilion, debyg. Mae'n debyg y bodolai Tŷ Isaf (y cyfeirid ato fel y Priordy, yr adeg honno) ers cyn y Diddymiad, a buasai tŷ, ac yn ddiweddarach, tafarn (o ganol yr 17eg ganrif, efallai), sydd yn awr yn rhan o Westy'r Saracen's Head lle ceir eto sgrin bren o'r 16eg ganrif. [7]

3.1.9 Y cofnod cynharaf o'r bont yw 1623, pan adroddir am waith atgyweirio. Mae'n debygol bod pont wedi bod yn y lleoliad hwn ers cryn dipyn o amser.

3.1.10 Gweithiwyd cloddfeydd copr Aberglaslyn, Brynfelin a Sygun ers cyn canol yr 16eg ganrif, a gweithiai eraill wythiennau plwm, sinc, haearn, ocr a manganîs. [8] Crybwylla Pennant y gweithfeydd yn Aberglaslyn ym 1810. Cloddid llechi, ond heb lwyddiant, gan amlaf, gan nad oedd ansawdd cyffredinol y cynnyrch yn dda.

3.1.11 Arhosodd y pentref yn dreflan fechan, na chofnodwyd llawer yn ei chylch, hyd ddiwedd y 18fed ganrif, gan ddechreuodd y dirwedd ddenu artistiaid a'r teithwyr pictwrésg cynnar.

3.1.12 Mae'r artistiaid cynnar a ymwelodd yn cynnwys J.M.W.Turner [9], John Boydell a'r artist tirwedd o Gymru, Richard Wilson, yn ogystal â hynafiaethwyr ac ysgrifenwyr, gan gynnwys Thomas Pennant.

**Ddechrau'r 19eg Ganrif**

3.1.13 Adeiladwyd Gwesty'r Royal Goat yn wreiddiol fel Gwesty Beddgelert ym 1802 gan Thomas Jones: yr oedd ei wraig wedi etifeddu ystâd Beddgelert. Fe'i lluniwyd i ddarparu'n benodol ar gyfer y niferoedd cynyddol o dwristiaid a geisient y Pictwrésg. Bu i'r rheolwr-ddeiliad cyntaf, David Pritchard, hyrwyddo chwedl Gelert, ci ffyddlon Llywelyn, a laddwyd trwy gamgymeriad gan ei feistr. Creodd gofeb mewn cae cyfagos a elwid, o hynny ymlaen, yn Fedd Gelert. [10]




**09** Golygfa tua'r bont, â'r felin ar y dde ddiwedd y 19eg ganrif.




**10** Gwesty'r Royal Goat (2021)

[7] https://historypoints.org/index.php?page=the-saracens-head-beddgelert
[8] Voelcker a Davidson, t.5
[9] https://www.tate.org.uk/art/artworks/turner-snowdon-and-dinas-emrys-from-above-beddgelert-d03651
[10] https://sublimewales.wordpress.com/attractions/gelerts-grave-at-beddgelert/descriptions-and-illustrations-of-gelerts-grave/

19fed Ganrif

3.1.14 Cyfunodd Deddf Uno 1800 â'r diddordeb mewn teithio a chynnydd gweithgaredd diwydiannol (cloddio mwyn copr, yn neilltuol) i arwain at wella'r ffyrdd a seilwaith arall, gan wneud y pentref yn fwy hygyrch i ymwelwyr. Cyfeiria Hyde-Hall at 'dyrpeg dwbl' yn y pentref.[11]

3.1.15 Mae Roscoe yn 'Wanderings in North Wales' yn peintio darlun lliwgar o'r newid ar gerdded yn y byd cymdeithasol a'r dirwedd pan ymwelodd, gan aros yng Ngwesty'r Goat ym 1836.[12] Dywed fod y copaon *'no longer wear their noble mantle of patriarchal oaks, - ill exchanged for the darker hews of the fir'.* Dywed hefyd fod *'the children of the poor constantly beset strangers, offering to them crystals and specimens of spar'.*

3.1.16 Mae'r clirio a disodli coed y cyfeiria Roscoe ato'n adlewyrchu defnyddio llethrau nad oeddent cystal ar gyfer amaeth, a gwariodd mewnfudwyr cefnog fel Daniel Vawdrey, a brynodd ystâd Plas Gwynant yn 1803, arian mawr ar blannu coed masnachol, yn ogystal ag annog trin tir is.

3.1.17 Dengys map degwm 1840 ddim ond yr eglwys a Gwesty'r Goat, ond buasai casgliad o adeiladau o gwmpas y bont ar yr adeg hon.

3.1.18 Cyfeiria Hyde-Hall (a eilw Beddgelert yn 'Beddgelart'), gan ysgrifennu ym 1811, at darddell *'supposed to be efficacious in the cure of warts'* a phresenoldeb tair melin, un *'close upon the village'* a thrydedd wedi'i chodi'n ddiweddar *'below Pont Aber Glasllyn'.*[13]


3.1.19 Ymwelodd Wordsworth yn 1824, gan ddringo'r Wyddfa â'i gyfaill Robert Jones, a sylwi ar y *'new and formal' houses [which] have in great measure supplanted the old rugged and tufted cottages.* Efallai mai tai Stryd yr Eglwys yw'r rhain, tai rhes cyntaf y pentref.[14]

3.1.20 Ailddatblygwyd ochr ogleddol y pentref yn hanner cyntaf y 19eg ganrif, gyda thai newydd a gwestai bychain yn disodli adeiladau cynharach. I'r dwyrain, estynnai dai rhes ar hyd Stryd Gwynant yn neilltuol, yn darparu'n bennaf, ar gyfer y diwydiant cloddio copr.

3.1.21 Codwyd adeiladau cyhoeddus er budd y gymuned a'r ymwelwyr cynyddol, gan gynnwys capeli'r Annibynwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd, ysgolion Cenedlaethol a Phrydeinig (hwy ill dwy'n agor yn y 1850au), siopau a chyfleusterau eraill.



**11** Mae ategion pont y PB&SSR yn parhau i sefyll i'r gorllewin o Fedd Gelert. (2021).




**12** Map Arolwg Ordnans o arolwg 1888, yn dangos canol y pentref a datblygu llinellol ar hyd y ffyrdd.

[11] Hall, E. Hyde (1811), A Description of Caernarvonshire (1809–11) (argraffiad 1952), t. 220.
[12] Roscoe, T. (1853), Wanderings and Excursions in North Wales t.151
[13] Hall, E. Hyde (1811), A Description of Caernarvonshire (1809–11) (argraffiad 1952), t. 220.
[14] Voelcker a Davidson, Draft Conservation Area Appraisal, (YAG 1036) 2012, t. 5

20fed Ganrif

3.1.22 Byddai'r rheilffyrdd â rhan fawr mewn llunio'r pentref, hefyd, er mai byrhoedlog oeddent, i ddechrau. Bwriadai cwmni North Wales Narrow Gauge Railways (NWNGR) osod llinell o Feddgelert (estyniad o'r llinell i Ryd Ddu) yn 1900, ond nis adeiladwyd erioed. Arfaethai'r Portmadoc, Beddgelert and South Snowdon Railway (PBSSR), â chefnogaeth y North Wales Power and Traction Company (a adeiladodd gorsaf bŵer Nant Gwynant) linell a gysylltasai Porthmadog a Beddgelert, i gysylltu ag estyniad Beddgelert arfaethedig y NWNGR. Fe'i hadeiladwyd yn rhannol, fel y tystia'r ategion pont sy'n sefyll i'r gorllewin o Fedd Gelert, ond yn ddiweddarach rhoddwyd y gorau iddi.

3.1.23 Cyfunwyd i PBSSR a'r NWNGR i greu'r Welsh Highland Railway ym 1922, a chyrhaeddodd y rheilffordd Feddgelert o'r diwedd ym 1923. Gweithredodd y WHR yn ddiweddarach tan reolaeth y Festiniog Railway Company, cyn cau drachefn ym 1937.

3.1.24 Adferwyd y rheilffordd rhwng 1997 a 2011 ac yn awr y mae'n cynnal gwasanaethau rhwng Caernarfon a Phorthmadog, lle cysyllta â rheilffordd Ffestiniog.

3.1.25 Diffiniwyd y pentref yn yr 20fed ganrif gan dwristiaeth yn bennaf. Ychydig o ddatblygu a newid ffisegol fu ers diwedd y 19eg ganrif, ond mae llawer o adeiladau wedi'u troi'n llety ymwelwyr.

# 4.0 Dadansoddiad Gofodol

## 4.1 Ffurf a Threfn

4.1.1 Diffinnir ffurf anheddiad Beddgelert gan drefn dirffurfiol afonydd a dyffrynnoedd serth, ac fe'i hanheddwyd gan y Rhufeiniaid, debyg, yna'r Celtiaid, yna'r Awstiniaid, cyn i ragor na 200 mlynedd o dwristiaeth ddiffinio'r pentref.

4.1.2 Pennid mannau croesi yn rhannol gan ffurf yr afon a'r cyfleoedd a gyflwynid ganddi. Mae'n debyg bod Pont Colwyn yn hŷn o lawer na'r cyfeiriadau cyntaf o ganol yr 16eg ganrif. Mae'r ffyrdd yn dilyn y dyffrynnoedd tua Nant Gwynant (a Chapel Curig, yn y pen draw) tua'r gogledd-ddwyrain; Nant Colwyn (a Rhyd Ddu) tua'r gogledd-orllewin, a Bwlch Aberglaslyn tua'r de (gan arwain i Borthmadog a'r glannau, yn y pen draw). Â'r ffordd i Fwlch Aberglaslyn ar hyd ymylon y gorlifdir, ychydig uwch na llawr y dyffryn.



**13** Rhesi tai Stryd yr Eglwys. (2021)



**14** Yr olygfa tua'r pentref o gyfeiriad Bwlch Aberglaslyn (2021).

4.1.3 O ganlyniad mae datblygu wedi dilyn y ffyrdd, oherwydd agosrwydd llethrau serth. Bu datblygu'r 19eg ganrif ar hyd Stryd Gwynant a Stryd Smith, ac ar hyd Ffordd Caernarfon (A4085) tua Rhyd Ddu yn bennaf, ac ar hyd y ffordd (A495) tua'r Royal Goat a Stryd yr Eglwys hefyd, i raddau. Canolbwyntiwyd y pentref cyn hyn, i raddau helaeth, ar y cyn-briordy a nifer o dyddynnod nesaf ato.

4.1.4 Eithriad i'r datblygu llinellol hwn yw'r ardal i'r dwyrain o'r afon, lle mae rhes tai chwarelwyr Tai Sygun o ganol y 19$^{eg}$ ganrif yn creu trefniad dymunol a neilltuol yn groes i gyfeiriad yr afon.

4.1.5 Yn yr 20fed ganrif, bu rhywfaint o ddatblygiad 'mewnlenwi' yn enwedig rhwng Ysgol Gynradd Beddgelert a'r A498 tua Phorthmadog, lle'r adeiladwyd rhai tai yng Nghae Morys a Dôl Fair. Codwyd datblygiad bach o dai o beth diddordeb cynlluniol rhwng Gwesty'r Royal Goat a'r orsaf, hefyd, yn Oberon's Wood, yn bennaf ar dir fu unwaith yn eiddo i'r Royal Goat.

## 4.2 Golygfeydd Allweddol

4.2.1 O fewn yr Ardal Gadwraeth mae sawl golygfa allweddol sydd ynteu'n darlunio datblygiad hanesyddol y pentref, yn caniatáu gwerthfawrogi nodweddion neilltuol neu adeiladau o bwys, neu'n rhoi amgyffrediad cywir o'i ddatblygiad o fewn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygon pwysig rhwng adeiladau neu tua nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal neu at ei hamgyffred.

4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa gyfeiriadol benodol) neu'n ddynamig, gan amgynnwys maes golwg o fan neilltuol.

4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gw. Ffig. 16):

**A** Golygfa ddynamig o Fynydd Sygun tua'r pentref.

**B** Golygfa o gyfeiriad Aberglaslyn tua'r pentref.

**C** Golygfa ddynamig tua Mynydd Sygun o orsaf Rheilffordd Eryri.

**D** Golygfa tua Gwesty'r Royal Goat o'r de (gan edrych tua'r gogledd ar hyd yr A498).



**15** Gosodiad Eglwys Fair. Sylwer ar yr ywen sylweddol (2021).



**16** Rhes Tai Sygun a Mynydd Sygun (2021).

**E** Golygfa ddynamig o Fynydd Sygun ar hyd wyneb Tai Sygun ar draws y tir glas.

**F** Golygfeydd dynamig o Fedd Gelert tua'r pentref.

**G** Golygfa tua Gwesty'r Royal Goat wrth ddynesu o'r pentref.

**H** Golygfeydd dynamig o Bont Beddgelert – tua'r gorllewin.

**I** Golygfa o Bont Beddgelert tua'r rhes adeiladau rhwng y Prince Llewelyn a Phlas Colwyn.

**J** Golygfa o Bont Alyn

**K** Golygfa o'r bont droed tros afon Glaslyn.

**L** Golygfeydd dynamig o Bont Beddgelert – tua'r dwyrain.

## 4.3 Mannau Gleision a Choed

4.3.1 Mae mannau gleision Beddgelert yn rhan sylweddol o'r Ardal Gadwraeth, sy'n ymestyn cyn belled â Phont Aberglaslyn i'r de. Maent yn cynnwys tir amaeth, coetir, dechrau'r llethr a gofodau mwy ffurfiol o fewn y prif bentref hefyd.

4.3.2 Mae'r ardal o safle'r hen briordy yng nghyffiniau Eglwys Fai, heibio i Fedd Gelert at Bont Aberglaslyn, yn gymysgedd od o dir amaeth, gwlypdir a gofod cyhoeddus fel gosodiad ar gyfer Bedd Gelert a'r llwybr at lan Glaslyn. Fe'i porir, mae'n safle gwaith trin dŵr, fe'i croesir gan amryw lwybrau, a saif ategwaith hen bont y PBSSR fel cofeb i ffolineb y cynllun hwnnw, gan ychwanegu at natur unigryw'r ardal.

4.3.3 Darpara'r ardal olygfa bwysig a gosodiad blaendirol i'r eglwys a'r pentref ehangach, a golygfeydd pwysig (gw. 4.2) â chefnlen Yr Aran y tu ôl. Mae golygfeydd a chysylltiadau â Bedd Gelert yn bwysig, yn enwedig yn nhermau gwerth cymunedol.

4.3.4 Mae'r fynwent o bwys, gyda thri beddrod rhestredig[15], gan gynnwys un Charles Easton Spooner, prif beiriannydd y Festiniog Railway, ac adlewyrchant rannau cynharaf yr anheddiad hefyd.



**17** Coed ar hyd glannau Glaslyn (2021).



**18** Mae'r ywen sylweddol wrth fynedfa'r fynwent yn bwysig ar gyfer diffinio'r fynedfa a phen draw Stryd yr Eglwys hefyd (2021).


[15] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=20924

4.3.5 Mae'r tir amaeth rhwng yr orsaf ac afon Colwyn i'r gogledd-orllewin yn darparu golygfeydd hirion, pwysig ar draws y pentref tua Mynydd Sygun.

4.3.6 Mae'r tir glas o flaen Tai Sygun â golygfeydd tua Mynydd Sygun yn bwysig, gan greu agwedd agored tua'r llethr, yn ogystal â bod yn ofod cynlluniedig, llawn cymeriad o flaen y rhesdai o'r 19eg ganrif.


4.3.7 Dangosir coedlannau neilltuol, rhai wedi'i diogelu gan orchmynion cadw, ar y cynllun yn Ffig. 20. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Coed ywen unigol yn y fynwent, yn enwedig honno yn y gongl ddwyreiniol a honno gyferbyn â mynedfa'r fynwent ym mhen draw Stryd yr Eglwys.
- Niferoedd sylweddol o goed ar lannau Glaslyn a Cholwyn.
- Coed bychain cysylltiedig â Bedd Gelert, a ddangosir, fe ddichon, mewn darluniau cynnar.
- Coed nesaf at y bont at Ysgol Gynradd Beddgelert, sy'n bylchu'r adeiladwaith ar hyd y ffordd ac yn fframio'n ddymunol olygfeydd o afon Glaslyn.
- Rhodfa fu gynt yn rhan o dirluniad y Royal Goat (i'w gweld i'r de-orllewin o'r ysgol).
- Coed yn Oberon's Wood a'r cyffiniau a'r Royal Goat (a ddiogelir gan GCC, gan fwyaf).




Golygfeydd Allweddol
1:6000 ar A4

**19** Golygfeydd allweddol ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)




Coed
1:6000 ar A4

**20** Coed a Gorchmynion Cadw Coed ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 5.0 Cymeriad

## 5.1 Trosolwg

5.1.1 Gellir canfod cymeriad Beddgelert ym mherthynas y ddwy afon ag adeiladwaith y pentref, gyda golygfeydd tua'r mynyddoedd uchel braidd yn gyfyngedig o fewn yr anheddiad ond yn bwysig fel cefnlen o'u gweld ymhellach draw.

5.1.2 Gellir dal i ddeall hanes cynnar Beddgelert yng nghyffiniau Eglwys Fair a gosodiad y cyn-briordy. Gwerthfawrogir hyn mewn golygfeydd wrth ddynesu o Fwlch Aberglaslyn, lle gwelir yr eglwys yn erbyn y mynyddoedd y tu hwnt ac wrth ystyried y berthynas ag adeilad cynnar Tŷ Isaf (Y Priordy).

5.1.3 Mae datblygiad diwydiannol graddfa-fechan yn y 18fed ganrif a'r 19eg yn amlwg yn y teras, yn enwedig ar hyd Stryd Gwynant a Thai Sygun, a adeiladwyd yn gartrefi i weithwyr y diwydiannau cloddio llechi a chopr.

5.1.4 Ers y 18fed ganrif mae Beddgelert wedi'i ddiffinio gan dwristiaeth bictwrésg. Mae dyfodiad artistiaid a'u portread o'r pentref wedi dylanwadu ar amgyffrediadau allanol o'i dirwedd a'i osodiad, ac ar ymwybyddiaeth gynyddol o chwedlau lleol a'u haddasu. Mae datblygiad y pentref o'r cyfnod hwn ymlaen yn adlewyrchu twf yr economi twristiaeth. O ddatblygu Gwesty'r Royal Goat, ac adeiladu ac ailadeiladu yng nghyffiniau'r bont, bu agwedd bictwrésg deunyddiau, ffurf, graddfa a gosodiad wastad yn ystyriaeth.

5.1.5 Mae perthynas y pentref â'r afonydd yn allweddol i'w gymeriad. Bu adeiladu o boptu'r ffyrdd i'r dwyrain a'r gorllewin, sydd wedi cuddio'r afon o'r golwg, yn enwedig ar hyd Stryd Gwynant. Mae canol y pentref, o gwmpas Pont Beddgelert, yn wynebu'r afon, ac wedi'i ddylanwadu gan y patrwm adeiladu cynnar a dichonoldeb pictwrésg golygfeydd tua'r bont ac oddi yno.

5.1.6 Heddiw, mae Beddgelert wedi cadw llawer o'i gymeriad o'r 19eg ganrif a chynt, gyda'r ardaloedd yng nghanol y pentref ac adeiladau allweddol wedi'u diogelu gan restru.



**21** Tŷ Isaf (Y Priordy) (2021).



**22** Eglwys Fair. (2021).

## 5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Mae adeiladau cynnar Eglwys Fair a Thŷ Isaf (Y Priordy) yn cynrychioli Beddgelert cyn-dwristaidd, ac y mae safle'r eglwys, gyda golygfeydd agored tua'r de, eto'n ein galluogi i amgyffred sut olwg oedd ar yr anheddiad cynnar. Mae'r ddau adeilad wedi'u rhestru ac yn gyffredinol mae'r adeiladwaith yn cael gofal. Mae'r eglwys bresennol, sy'n cynnwys peth adeiladwaith o'r 13eg ganrif, yn rwbel anhaenol gydag ymylwaith a manylion o'r 19eg ganrif yn bennaf. Mae Tŷ Isaf, o ddiwedd yr 17$^{eg}$ ganrif, yn awr yng ngofal Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.


5.2.2 Diffinnir cymeriad cyffredinol y pentref gan weledigaeth cyfnod y Rhaglywiaeth, ond wedi'i throsi ar gyfer gosodiad gwledig, mynyddig. Gan gyfuno tai ar gyfer diwydiant graddfa-fechan a'r ymwelydd, mae'r cyfan yn cydweithio i greu cyfanwaith pictwrésg a chydlynol.

5.2.3 Diffinnir cymeriad pensaernïol Stryd Gwynant gan resi o dai ar hyd y ffordd. Mae'r adeiladau hyn o tua 1830 wedi'u diogelu, gan fwyaf, gan restru, sydd wedi sicrhau graddfa dda (ond nid llwyr) o ddiogelwch i'w manylion pwysig, fel y ffenestri codi aml-gwarelog, llawn cymeriad wedi'u gosod mewn tyllau dyfnion, â rhai manylion gothig.

5.2.4 I'r de o'r stryd mae rhes a elwir yn 'Tai Clwb', â llechen ar dalcen Si-yr-Afon yn cofnodi eu hadeiladu ym 1841 gan y *'Benefit Society of Eryri in Beddgelert, founded 1$^{st}$ January 1832'.*

5.2.5 Mae Tai Sygun gyferbyn yn groes i gyfeiriad yr afon ac yn wynebu clwt trionglog o dir glas. Mae'r tai rhes yno'n fwy, rhai â ffenestri o boptu'r drws, wedi'u gorffen â chymysgedd o rendr a charreg. Eto, mae cymeriad pictwrésg y pentref yn amlwg, gyda chyfansoddiad rhagorol, eglur ei gynllun yn cyfuno gofod glas yn y blaendir a chraig Mynydd Sygun y tu ôl i'r adeiladau.

5.2.6 I'r gogledd o Bont Beddgelert mae'r adeiladau'n creu grŵp bywiog. O ddyddiad tebyg ond gan ddefnyddio dyfeisiadau pensaernïol i greu diddordeb, mae'n debyg iddynt ddisodli adeiladau blaenorol. Mae gan fila hardd Plas Colwyn fargodion ymestynnol, dwfn sy'n dwyn i gof adeiladau ystâd Oakeley ym Maentwrog. Mae gan Blas Gwyn lawr gwaelod dyrchafedig, neu *piano nobile*, wedi'i gyrraedd ar hyd grisiau, sy'n ymestyn tri llawr i fyny. Mae'r bargodion estynedig ag estyll tywydd addurnedig. Mae amrywiaeth lefelau lloriau'n nodweddu Colwyn (y Llyfrgell Gylchynol a'r



**23** Tai Sygun, ar draws y tir glas(2021).



**24** Ysgol Sul. Safai capel y Methodistiaid Calfinaidd ar ochr dde'r llun ar un adeg. (2021).

Gwesty Dirwestol gynt) [16] a Waterloo House, ac y mae gan y Prince Llewelyn ffenestri â manylion gothig.

5.2.7 Ymhellach ar hyd Ffordd Caernarfon (A4085) mae'r adeiladau ar hyd ochr ogleddol y ffordd, gan gynnwys y Saracen's Head, wedi'u gosod ar ychydig o ongl i'r lôn. Y tu hwnt mae Ysgol Sul flaenorol Capel Mawr yn cadw llawer o'i chymeriad gwreiddiol, a saif rhes tai cerrig o'r 19eg ganrif (Tai Bulkeley) gam yn ôl. Bu Capel Mawr y Methodistiaid Calfinaidd o'u blaenau ar un adeg: fe'i chwalwyd ym 1987.

5.2.8 Gyferbyn mae Ysgol Gynradd Beddgelert (yr Ysgol Brydeinig, gynt) sy'n cadw llawer o'i chymeriad gwreiddiol (gan gynnwys ffenestri gwreiddiol ac a gyrhaeddir ar hyd pont droed ar draws Colwyn, gan greu golygfeydd i fyny ac i lawr yr afon.

5.2.9 Mae'r ardal y tu draw i'r Ysgol Sul yn gymysgedd o adeiladau mewnlenwi cyfoes, gan gynnwys y Warws, siop nwyddau awyr-agored wag, bellach. Mae Brynach gyferbyn, a gyrhaeddir ar draws pont bren, yn ychwanegiad cyfoes dymunol.

5.2.10 Ymhellach i'r gorllewin, y tu allan i'r Ardal Gadwraeth (gw. ffin), mae'r ffordd yn codi trwy goetir amrywiol da, gan gyrraedd y ficerdy rhestredig sy'n sefyll uwchlaw'r ffordd, a phorthdy carreg 'The Firs' (i'r de o'r ffordd). Mae'r olaf, ynghyd â Phont Alyn drws nesaf a'r gosodiad tirweddol, yn olygus iawn ac yn darparu golygfeydd da iawn tua thirwedd goediog Colwyn.

5.2.11 I'r de o Bont Beddgelert, y tu ôl i Dŷ Isaf, â'r ffordd yn gyfochrog â Cholwyn, a cheir yr Ysgol Genedlaethol gynt. Adeilad Fictoraidd dymunol o 1850, â waliau cerrig rwbel mawrion, ymylwaith brics a ffenestri codi haearn bwrw siâp diemwnt mewnosodedig (yn y gilfach ganolog).[17] Yn nesaf ato mae 'Gwynedd Crafts' to gwastad a chefnau'r adeiladau ar y ffordd tua'r Royal Goat braidd yn flêr a digyswllt.

5.2.12 Ar yr ochr draw i Dŷ Isaf mae gan Stryd yr Eglwys resi o dai teras, rhai o'r cynharaf yn y pentref, debyg, sy'n fframio golygfeydd tua mynedfa'r fynwent. Yn anffodus mae'r stryd hon, a fu'n deg, wedi'i gormesu gan gerbydau yn awr. Mae llawer o'r tai wedi dioddef gan newidiadau diweddarach, gan gynnwys gosod ffenestri newydd uPVC.



**25** Yr Ysgol Genedlaethol flaenorol (2021).




**26** Rhan o fap Arolwg Ordnans 1913 yn dangos gerddi'r Royal Goat, a ddatblygwyd ers hynny.

[16] https://historypoints.org/index.php?page=former-circulating-library-beddgelert
[17] https://historypoints.org/index.php?page=former-national-school-beddgelert

5.2.13 Ar hyd y ffordd tua Thremadog mae casgliad bach o adeiladau'r 19eg ganrif yn mynd o Dŷ Isaf tua'r Royal Goat. Mae'r rhain yn cynnwys Tanronnen, gwesty a ailadeiladwyd droeon, a swyddfa'r post, sydd â sawl dormer, ac estyll tywydd addurnol. Mae Erw Fair yn dŷ 19eg ganrif newidiedig o gryn faint, a fu'n gartref i Frank Jones Walker-Jones a etifeddodd y tir gan Thomas Jones, datblygwr y Royal Goat. Ar ochr ogleddol y ffordd mae Gelert House (wedi'i rendro ac â chyntedd gwydr) a Glanafon yn adeilad carreg sylweddol, pwysig ar y gongl, sy'n edrych dros yr afon ac yn cadw ffenestri codi a manylion eraill.

5.2.14 Gerddi tirluniedig y Royal Goat fu'r tir rhwng y man hwn a'r gwesty, ar un adeg, ac y mae gweddillion rhodfa eto i'w gweld yn y dirwedd tua'r de.

5.2.15 Ymhellach i'r gorllewin, mae capel yr Annibynwyr (tua 1903, gan T. Taliesin Rees)[18], sef Canolfan Hebog yn awr. Mae'r adeilad hwn â cherrig bychain hollt, diddorol, ac ymylwaith wedi'i rendro: arddull a gysylltir ag wynebynnau carreg gallestr, fel arfer.

5.2.16 Ymddengys y canolbwyntiwyd datblygiad wedi'r Ail Ryfel Byd ar dir fu'n eiddo i'r Royal Goat. Codwyd grŵp bach o dai cyngor (tua 1950) yn Nolfair (y tu ôl i gapel yr Annibynwyr ac ar lan yr afon). Codwyd Cae Morys, grŵp ffug-werinol siomedigaethus ar safle gerddi'r gegin tua 1992. Adeiladwyd rhes o dai carreg Nanhoron i'r dwyrain o Stryd Gwynant yn y 1980au.

5.2.17 Rhwng y Royal Goat a'r orsaf mae datblygiad Oberon Wood yn well, gan ddod ag ansawdd neilltuol a chyfuno carreg a rendr.

5.2.18 Mae rhai o stablau ac adeiladau ategol y Royal Goat eto'n bodoli tua'r gogledd, rhai mewn cyflwr gwael. Difrodwyd un rhan gan dân diweddar, er bod gwaith trwsio ar y gweill.

5.2.19 Mae Gwesty'r Royal Goat, sy'n atalnod gweledol ar orllewin y pentref, yn adeilad mawreddog, Rhaglywyddol.[19] Mae o dri i bedwar llawr, rhan wedi'i rendro a rhan yn gerrig rwbel lled-haenol. Mae'n ennyd allweddol wrth gyrraedd y pentref o'r de, a bu'n elfen hynod weledol o olygfannau pwysig ers 200 mlynedd. Ar adeg yr arolwg 'roedd yr adeilad ar gau 'am y tymor', ac y mae ei gyflwr yn destun peth pryder (gw. Adran 2).



**27** Capel yr Annibynwyr gynt, sef Canolfan Hebog yn awr (2021).




**28** Gwesty'r Royal Goat, wyneb deheuol (2021).

[18] Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) The Buildings of Wales: Gwynedd (Yale University Press, London)
[19] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=20951

## 5.3 Deunyddiau a Manylion

5.3.1 Prif ddeunydd adeiladu Beddgelert yw carreg, wedi'i chloddio'n lleol. Mae carreg Beddgelert o liw rhwd neilltuol iawn, ag ynddo lawer o haearn. Maent yn gymysgedd o ddolerit a rhyolitau (cerrig igneaidd), ond mae peth ithfaen i'w weld, yn bennaf o haen yn ymyl cloddfa gopr Sygun, a weithiai wythïen yn y llechfaen nesaf at yr ithfaen.[20]

5.3.2 Gellir gweithio'r garreg leol ac y mae'n amlwg mewn rwbel haenol ac anhaenol â nodweddion ac ymylwaith.

5.3.3 Fel y cyfeiriwyd ato eisoes, mae rhannau cynnar yr eglwys o garreg raean o Fôn.

5.3.4 Mae rendr yn nodwedd, hefyd, yn enwedig yn y Royal Goat, Gelert House a datblygiadau diweddarach. Mae gro chwipio (o'i wrthgyferbynnu â chwipio garw traddodiadol) hefyd yn gwneud ymddangosiad anghroesawgar, yn enwedig yng Nghae Morys.

5.3.5 Yn wahanol i Fetws-y-coed, nid oes fawr ddim gwaith brics i'w weld ym Meddgelert. Eithriad dinod yw ymylwaith yr Ysgol Genedlaethol gynt.

5.3.6 Yn wreiddiol buasai'r toeau'n llechi lleol trwchus, garw eu naddiad, ond heddiw mae hyd yn oed rhai Eglwys Fair yn llechi Bethesda neu Flaenau Ffestiniog a naddwyd gan beiriant.

## 5.4 Ffiniau

5.4.1 Dynodir ffiniau â waliau cerrig, gan amlaf, a'r rheiny'n rhai lleol yn bennaf, er yr ailadeiladwyd y mwyafrif yn yr 20fed ganrif.

5.4.2 Mae'r waliau cerrig rwbel o gylch Eglwys Fair, y rhannau cynharaf yn enwedig, o bwys neilltuol.

5.4.3 Mae waliau cerrig sychion yn nodweddu'r ffordd at y Royal Goat o Aberglaslyn, a'r rheiny reit at ymyl y lôn. Maent yn rhan bwysig o'r dynesiad o'r de. Mae'r un peth yn wir am y dynesiad o gyfeiriad Caernarfon.

5.4.4 Ailadeiladwyd llawer o waliau canol y pentref, er gan ailddefnyddio cerrig, debyg. Mae gan waliau Erw Fair, o ddiwedd y 19eg ganrif, gerrig copa




**29** Tai allan y Royal Goat. Sylwer ar y difrod tân (2021).



**30** Bedd Gelert o'r de (2021).

[20] Cosgrove, J. a Talbot, J. The Roadside Geology of Wales (Geologists Assoc. 69), Geologists Association, 2017. P.56.

cwartsit, sy'n wrthgyferbyniad diddorol ac yn adlewyrchiad pwysig o statws y tŷ hwn.

## 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

5.5.1 Mae gan y pentref nodweddion a gwrthrychau eraill sy'n cyfrannu at ansawdd a diddordeb yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

5.5.2 Y pafin llechi o amgylch Bedd Gelert,

5.5.3 Yr amgaead i hen gapel y Methodistiaid Calfinaidd blaenorol, a'r llechen yn cofnodi dyddiadau'r capel.

5.5.4 Erys hen lampau nwy yn ymyl Pont Beddgelert.

5.5.5 Beddrodau a cherrig beddau neilltuol a phwysig yn y fynwent, â cherfwaith llechi o ansawdd da.

# 6.0 Asedau Hanesyddol

## 6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Ceir yr asedau hanesyddol dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) yn yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 34):

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *Amherthnasol*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *3676 Pont Beddgelert*
- *3677 Gwesty'r Prince Llewelyn*
- *3679 Llewelyn Cottage (Tŷ Isaf)*
- *3689 Eglwys Blwyf y Santes Fair*
- *3690 1 Rhes Sygun*
- *3691 2 Rhes Sygun*
- *3692 3 Rhes Sygun*
- *3693 4 Rhes Sygun*
- *3694 5 Rhes Sygun*
- *3695 6 Rhes Sygun*
- *3696 7 Rhes Sygun*
- *3697 8 Rhes Sygun*
- *3698 9 Rhes Sygun*
- *3699 10 Rhes Sygun*



**31** Pont Beddgelert a'r Prince Llewelyn (2021).



**32** Ivy House, Stryd Gwynant, yn arddangos manylion gothig ffenestri'r llawr gwaelod (2021).

- *3700 Lletty*
- *3701 Ivy House*
- *3702 Ger-y-Lli*
- *3703 4 Tai Clwb*
- *3704 Gwynant House*
- *3705 Si-yr-Afon*
- *3706 Isfryn*
- *3707 Talafon*
- *3708 Meirionfa*
- *3709 Tegfan*
- *3710 Clydfan*
- *3711 Three Rivers*
- *3712 Glan-Awen*
- *3713 Pensarn*
- *3714 Waterloo House (Beddgelert Antiques and Tea Rooms)*
- *3715 Colwyn Guest House*
- *3716 Plas Gwyn*
- *3717 Abercolwyn*
- *3718 Renig*
- *3719 Frondeg*
- *3720 Encil*
- *3721 Ail Orau*
- *3722 Bryn Afon*
- *3723 Glwyndwr*
- *3724 Henfro*
- *3725 Hebog*
- *3726 7 Stryd Gwynant*
- *3727 Llys Trefor*
- *3728 Pen-y-Bont*
- *3729 Llys Emrys*
- *3730 11 Stryd Gwynant*
- *3731 12 Stryd Gwynant*
- *3732 Arosfa*
- *3733 Hafan*
- *3734 15 Stryd Gwynant*
- *3735 16 Stryd Gwynant*
- *3736 Bryn-Cilio*
- *3737 18 Stryd Gwynant*
- *3738 Tremafon*
- *3739 Tan-Rallt*
- *3740 Tan-y-Marian*
- *20924 Grŵp o Dri Beddrod â Rheiliau ym mynwent Eglwys Fair*
- *20925 Bedd Gelert*
- *20951 Gwesty'r Royal Goat*
- *20952 Tŷ Popty*

- *20953 Colwyn Cottage*

6.1.3 O Fewn Estyniad Dichonol y Ffin (gw. 7.0)

- *21917 Ficerdy*

6.1.4 Dynodiadau Ychwanegol Dichonol.

Bernir y dylid ystyried cynnwys y canlynol ar y rhestr genedlaethol:

- *Gwesty'r Saracen's Head.*

## 6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

6.2.1 Clustnodwyd yr asedau haneyddol annynodedig canlynol yn yr Ardal Gadwraeth yn rhai o ddiddordeb lleol arbennig (gw. Ffig. 35):

- *Gwesty'r Saracens Head (gw. nodyn uchod).*
- *Ysgol Sut y Capel Mawr gynt.*
- *Ael-y-Bryn*
- *Gwyndy Bach*
- *Hebog*
- *Plas Tan-y-Graig*
- *Ysgol Gynradd Beddgelert*
- *Rhestai Stryd yr Eglwys (y ddwy ochr).*
- *Tai allan (stablau?) Gwesty'r Royal Goat (yn fodurdai a llety gwyliau, bellach).*
- *Canolfan Hebog (capel yr Annibynwyr, gynt)*
- *Erw Fair*
- *Adfeilion ysgubor i'r de-orllewin o Fedd Gelert.*
- *Rhes Meirion*

6.2.2 O Fewn y Ffin Estynedig Arfaethedig:

Mae'r asedau canlynol y tu allan i ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth, ond byddent o fewn y ffin estynedig (gw. 7.0)

- *Rhes Glasfryn*
- *Pont Alyn (The Firs, gynt)*
- *Rhes tai nesaf at fynedfa'r Ficerdy (ochr ogleddol y ffordd).*

## 6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol


6.3.1 Dylid hefyd ystyried 'Cofrestr Adeiladau Traddodiadol' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr.

# 7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth

7.1.1 Yn dilyn yr arfarniad, cynigir y dylid ymestyn ychydig ar ffin yr Ardal Gadwraeth i gynnwys Ffordd Caernarfon (A4085) hyd at Bont Alyn, a chan gynnwys y Ficerdy rhestredig i'r gogledd o'r ffordd.

7.1.2 Hyn er mwyn cynnwys y rhesi tai teras, yr afon yn yr ardal hon, a gosodiad rhagorol Pont Alyn a'r Firs (porthdy mewn cyflwr da) gerllaw, oll yn bwysig i'r Ardal Gadwraeth.

7.1.3 Am yr estyniad ffin arfaethedig, gw. Ffig. 33.




Estyniad Arfaethedig i'r Ardal Gadwraeth
1:6000 ar A4

**33** Ymestyniad arfaethedig ffin yr Ardal Gadwraeth. ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 8.0 Cyfarwyddyd Erthygl 4

8.1.1 Beddgelert yw'r unig un o Ardaloedd Cadwraeth Eryri sydd â chyfarwyddyd Erthygl 4, sy'n diddymu hawliau datblygu caniadedig pellach.

8.1.2 Cynhwysir copi o'r cyfarwyddyd yn yr Atodiadau, ond yn gyffredinol y mae'n ymwneud ag elfennau megis newid ffiniau, goleddfau toeau, wynebu caled, triniaeth ffiniau, ychwanegu cynteddau, llestri lloerennau, ac yn y blaen.

8.1.3 Nid yw'r cyfarwyddyd Erthygl 4 presennol yn rheoli newid ffenestri a gwaith coed arall (onis cynhwysir ymysg yr uchod), sydd yn anffodus, er bod diogelu helaeth trwy restru ym Meddgelert.

8.1.4 Argymhellir y dylid ymestyn y cyfarwyddyd Erthygl 4 i gynnwys ffenestri, drysau a manylion gwaith coed sydd o bwys i ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth.

# 9.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

9.1.1 Mae gan Feddgelert, neu'r dirwedd o amgylch o leiaf, hanes cofnodedig ers y cyfnod cynhanesyddol, ac y mae ar ffordd Rufeinig gofnodedig. Nid yw dim o'r hanes cynnar hwn yng nghyffiniau'r anheddiad wedi'i ddeall yn dda.

9.1.2 Mae cyfle pwysig i ddeall yr anheddiad crefyddol cynnar a'r priordy yn well, a'r berthynas â Dinas Emrys a thiroedd Llywelyn ab Iorwerth.

# 10.0 Asedau Dynodedig Eraill

## 10.1 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (SoDdGA)

10.1.1 Mae Coedydd Beddgelert a Cheunant Aberglaslyn yn Warchodfa Natur Genedlaethol ddynodedig, ac yn gorgyffwrdd â ffin yr Ardal Gadwraeth yn ymyl Oberon Wood.[21] Gw. Ffig. 36.

10.1.2 Diogelir pob Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) yng Nghymru fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r mwyafrif wedi'u datgan yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

[21] https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy

10.1.3 Diffinnir ardaloedd o gwmpas Ardal Gadwraeth Beddgelert yn rhai y bernir eu bod yn bwysig tan Adran 3 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygiad) 1985. Clustnoda hon ardaloedd o Fynyddoedd, Gweunydd a Rhostiroedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, prydferthwch naturiol pa rai y mae'r Awdurdod o'r farn ei fod yn bwysig neilltuol ei gadw.

## 10.2 Gorchmynion Cadw Coed


10.2.1 Mae amryw Orchmynion Cadw Coed yn yr ardal Gadwraeth (yn ychwanegol at y warchodaeth y mae'r Ardal yn ei rhoi). Gw. Ffig. 20 hefyd. Sef:

- Coed unigol yng nghyffiniau'r Royal Goat (cyf. 'Royal Goat Beddgelert').
    - Caerns41/T01-T64. Amryw gan gynnwys Ynn, Ffawydd, Deri, Bedw Arian.
- Coeden unigol Llewelyn Cottage (Tŷ Isaf), Beddgelert
    - SNP026/T01 Sycamorwydden (Acer pseudoplatanus)
- Coed unigol ar hyd glannau Colwyn.
    - Caerns43/T01-02 Sycamorwydd (Acer pseudoplatanus) a choed Castan y meirch (Aesculus hippocastanum)
- Coed unigol yng Nglascoed.
    - SNP011 (Glascoed, Beddgelert). T01-03 Ffynidwydd Douglas a Sycamorwydd.




Adeiladau Rhestredig
1:6000 ar A4

**34** Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)




Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig
1:6000 ar A4

 (© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100022403)

# 11.0 Bioamrywiaeth

## 11.1 Coed

11.1.1 Gw. 9.2 am Orchmynion Cadw Coed.

11.1.2 Gw. 4.3 am ddisgrifiad o goed/coetiroedd allweddol o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

11.1.3 Ceir ardaloedd o goetir hynafol adferedig yn gorgyffwrdd â rhannau gogleddol a de-ddwyreiniol yr ardal gadwraeth.

11.1.4 Mae **Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru** yn weithredol o fewn sawl Ardal Gadwraeth, gan gynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac mae'n ceisio amddiffyn ac adfer cynefinoedd coetiroedd prin yr lwerydd trwy reoli Rhododendron ponticum a rhywogaethau estron ymledol eraill. Pan gynigir gwaith, cynlluniau plannu, tirlunio, cynnal a chadw neu ddatblygiad o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn, dylid ystyried bioddiogelwch, atal cyflwyno rhywogaethau ymledol newydd, a'r effaith bosibl ar gynefinoedd fforestydd glaw Celtaidd cyfagos. Dylid ceisio cyngor cynnar gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lle gall cynigion effeithio ar ardaloedd sy'n gysylltiedig â'r prosiect neu gynnwys disodli rhywogaethau, clirio llystyfiant neu reoli cynefinoedd.

## 11.2 Rhywogaethau Amddiffynedig

11.2.1 Gwyddys fod sawl rhywogaeth amddiffynedig pwysig yn yr Ardal Gadwraeth a'i chyffiniau. Mae rhywogaethau'r adar yn cynnwys:


- Y Frân Goesgoch
- Yr Hebog Tramor
- Y Cudyll Bach
- Y Bwncath

Mae rhywogaethau'r mamaliaid yn cynnwys:

- Bele'r Coed
- Geifr Lledwyllt
- Yr Ysgyfarnog

- Yr Hydd Brith
- Y Ffwlbart

11.2.2 Gwyddys fod pysgod mudol fel y rhai eogffurf yn bresennol yng Nglaslyn a Cholwyn.





Dynodiadau Eraill
1:6000 ar A4

**36** Dynodiadau Eraill ([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)




# **YR AIL RAN**: CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH

# 1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB



# 2.0 Deall y Materion

## 2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Beddgelert yn cadw llawer haen ddarllenadwy a gweladwy o'i hanes unigryw a phwysig, ac elfennau hanfodol o'i gymeriad unigryw.

2.1.2 Mae llawer o adeiladau'r Ardal Gadwraeth wedi'u rhestru, a fu o gymorth mawr i amddiffyn diddordeb arbennig a chymeriad y cyfan ac adeiladau unigryw.

2.1.3 Mae'r cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cyfyngu ar ddatblygu anaddas, ond nid yw'n eglur a'i gorfodir neu a ddeellir ei gyfyngiadau.

2.1.4 Mae mwyafrif yr adeiladau wedi'u preswylio neu mewn defnydd buddiol, ond mae rhai adeiladau pwysig sydd naill ai'n wag neu heb eu defnyddio'n llawn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwesty'r Royal Goat yw un o adeiladau pwysicaf y pentref. Mae ar agor yn ystod y tymor gwyliau'n unig, ac y mae pryder mawr ynghylch cyflwr cyffredinol yr adeilad, a'r tai allan yn neilltuol.
- Mae'r Warws (mymryn y tu allan i ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth) yn siop nwyddau awyr-agored sylweddol sy'n wag ar hyn o bryd ac yn dechrau dirywio.

2.1.5 Mae rhai materion sy'n effeithio'n andwyol ar ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Disodli gwaith coed, ffenestri a drysau hanesyddol adeiladau nas rhestrwyd gan rai cyfoes, uPVC gan amlaf.
- Datblygiadau neu estyniadau anaddas neu o ansawdd gwael.
- Colli dulliau traddodiadol dynodi ffiniau.
- Goruchafiaeth cerbydau, parcio a thraffig.
- Natur a phwysau tymhorol yn ystod y prif gyfnod gwyliau. Cau a diffyg gweithgaredd, i bob golwg yn ystod gweddill y flwyddyn.

2.1.6 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:




**37** Tai allan blaenorol y Royal Goat, yn wael eu cyflwr yn awr (2021).



**38** Giatiau wedi'u torri a'u difrodi y tu cefn i'r Royal Goat (2021).

- Disodli ffenestri traddodiadol gan rai uPVC, yn enwedig yn rhestai Stryd yr Eglwys.
- Ffenestri bae llawr gwaelod Plas Tan-y-Graig.
- Cefnau adeiladau ar yr A498, adeiladau a chowtiau Gwynedd Crafts oll yn flêr ac wedi'u newid yn sylweddol o'u gweld o fan nesaf at Beddgelert Woodcraft.

## 2.2 Adeiladau Mewn Perygl

2.2.1 Er na ddynodwyd fod Gwesty'r Royal Goat a'r tai allan presennol a blaenorol 'mewn perygl', mae peth pryder ynghylch ei gyflwr.

## 2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB

2.3.1 Cynhaliwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Ardal Gadwraeth Beddgelert. Defnyddir hwn i adnabod y materion, cyfleoedd a chryfderau cynhenid yr Ardal Gadwraeth ac yn sail i greu'r cynigion rheoli adeiladol sy'n canlyn.

2.3.2 Dengys y dadansoddiad CGCB sawl pen gweithredu allweddol, i adeiladau ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi ailosod manylion adeiladu traddodiadol ac uwchraddio cynaliadwy ar gyfer gwell perfformiad amgylcheddol.
- Canfod defnyddiau addas newydd ar gyfer tai allan blaenorol dirywiedig Gwesty'r Royal Goat a chefnogi trwsio'r prif adeilad.
- Ymestyn y diogelu a geir gan y gyfarwyddeb Erthygl 4 i gynnwys ffenestri, drysau a manylion eraill.
- Ceisio ymestyn y tymor ymwelwyr trwy ddarparu economi a gweithgaredd 'gydol y flwyddyn', i helpu lliniaru pwysau misoedd yr haf.
- Gwella cysylltiadau â Rheilffordd Ucheldir Cymru a darparu cyfleusterau gorsaf newydd.
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni cynaliadwy tan arweinyddiaeth y gymuned.



**39** Newidiadau anaddas yn rhestai Stryd yr Eglwys. Ffenestri cyfoes, gwaith cerrig wedi'i baentio neu'i rendro (nid calch neu chwipio garw traddodiadol) (2021)



**40** Cyfleusterau gorsaf dros-dro presennol ym Meddgelert (Rheilffordd Eryri) a slab llawr ar gyfer yr orsaf newydd y tu draw (sydd â chaniatâd cynllunio).

- Dichonoldeb gwella dehongli hanes a bioamrywiaeth ecolegol hynod bwysig Beddgelert, a chyflwyno ac adrodd ei chwedlau'n well trwy well dehongli.
- Canfod defnydd addas newydd ar gyfer adeiladau a safle'r Warws.

2.3.3 Mae'r CGCB yn clustnodi sawl gwendid a bygythiad, a glustnodir yn bennau gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ceisio ymgysylltu adeiladol i fynd i'r afael â phroblemau ynghylch Gwesty'r Royal Goat a'i dai allan.
- Ceisio ymestyn y tymor ymwelwyr trwy ddarparu economi a gweithgaredd 'gydol y flwyddyn', i helpu lliniaru pwysau misoedd yr haf.
- Ymestyn y diogelu a geir gan y gyfarwyddeb Erthygl 4 i gynnwys ffenestri, drysau a manylion eraill.
- Sicrhau diogelu mannau gleision a golygfeydd allweddol trwy ymgysylltu lleol ac wrth ystyried ceisiadau datblygu.
- Gwella dehongli'r pentref, ei dreftadaeth, ei hanes a'i fioamrywiaeth.
- Ystyried dewisiadau ar gyfer rheoli llif a pharcio cerbydau, yn enwedig yng ngoleuni swyddogaeth ddichonol bod yn bentref 'porth' fel y nodir yn nogfennau strategaeth drafnidiaeth Partneriaeth Yr Wyddfa. Parhau i weithio ar y cyd er mwyn sicrhau agwedd gydlynol at drafnidiaeth a gwella'r Ardal Gadwraeth.

# 3.0 Rheolaeth Gadarnhaol

## 3.1 Newid Ffiniau

3.1.1 Cynigir ymestyn ffin yr Ardal Gadwraeth ychydig er mwyn cynnwys cyffiniau Pont Alyn a'r Ficerdy. Gw. Adran 1.

## 3.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Darperir cyd-destun fframwaith deddfwriaethol Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwynol **Cyflwyno a Pholisi Cynllunio.** Rhydd y ddogfen hon arweiniad a pholisïau cyffredinol hefyd.

3.2.2 Fel y nodwyd yn 6.1 yr AAG, argymhellir ystyried Gwesty'r Saracen's Head ar gyfer rhestru. Onid yw hyn yn bosibl dylid ei ddiogelu trwy gyfarwyddiadau Erthygl 4 estynedig neu benodol.

3.2.3 Cynigir y dylid ymestyn y cyfarwyddyd Erthygl 4 presennol i gynnwys ffenestri, drysau a manylion eraill, er mwyn sicrhau amddiffyn y rhain ar adeiladau o bwys lleol nas rhestrwyd.

## 3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Gellid gwella ei diddordeb arbennig yn sylweddol trwy roi sylw i rai o'r materion, gwendidau a bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth (gweler 2.0). Gellid gwneud hynny trwy estyn pwerau neu ganllawiau cynllunio.

3.3.2 Mae pynciau a chyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Gweithrediad dichonol gwell camau rheoli datblygu, trwy gynyddu darpariaeth y cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli colli manylion a nodweddion gwaith coed hanesyddol.
- Ceisio ymgysylltu adeiladol i fynd i'r afael â phroblemau ynghylch Gwesty'r Royal Goat a'i dai allan.
- Ystyried cyfarwyddiadau cynllunio er mwyn sicrhau dwyn adeiladau segur neu nas defnyddir yn llawn (fel y Warws) yn ôl i ddefnydd buddiol neu well.
- Ystyried dewisiadau rheoli cerbydau a pharcio'n well ar y cyd â strategaeth Partneriaeth Yr Wyddfa.
- Gwella cysylltiadau â Rheilffordd Ucheldir Cymru a darparu cyfleusterau gorsaf newydd.
- Gwella dehongli'r pentref, ei dreftadaeth, ei hanes a'i fioamrywiaeth.

- Cynyddu ac adeiladu ar ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o rywogaethau a'r nodweddion naturiol arbennig yn y pentref a'i chyffiniau.

3.3.3 Gan ddefnyddio'r cyfarpar uchod a thrwy'r ymgynghoriad (gw. isod), codi ymwybyddiaeth o'r Ardal Gadwraeth a'i gwneud yn amlycach, ac annog datblygu a newid addas. I gynnwys:

- Ymwybyddiaeth â pherchnogion a chymuned Beddgelert.
- Codi ymwybyddiaeth a medrau (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) ar gyfer contractwyr a chrefftwyr lleol.

## 3.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

3.4.1 Ceir arweiniad ynghylch yr arddull cywir ar gyfer cyflwyno **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**

3.4.2 Mae gan Feddgelert gyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu pŵer ar raddfa fechan, a dechreuwyd defnyddio'r rhain eisoes. Yn hanesyddol, yng Nghwm Dyli (sydd wedi'i restru)[22] ac yng Nghraflwyn a Llyndy Isaf gerllaw (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

3.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau cynhyrchu ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.

## 3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed o bwys hanfodol i'r fioamrywiaeth a'r arwyddocâd esthetig. Amddiffynnir amrywiaeth o goed gan orchmynion cadw (gw. 8.3). Clustnodwyd coed eraill yn rhai ag arwyddocâd yn yr ardal gadwraeth (gw. 4.3).

3.5.2 Bernir y gellid ystyried coed y fynwent, ywen yn bennaf, a'r rhai o amgylch clwt tir glas y pentref, ar gyfer gorchmynion cadw.

3.5.3 Mae dichonoldeb gwella bioamrywiaeth yn yr Ardal Gadwraeth yn sylweddol. Gallai gweithredu enghreifftiol gynnwys:

[22] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=20926

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
- Lle bo'n addas ar gyfer y dreftadaeth adeiledig, gall defnyddio toeau glaswellt a nodweddion mewnadeiledig eraill (fel bo'n briodol) mewn estyniadau neu adeiladau newydd, wella cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Rheoli a gwella gwrychoedd.
- Diogelu coed yn ystod gwaith adeiladu.
- Caniatáu i goed aeddfedu heb ymyrraeth.
- Cadw coed marw safadwy a chreu pentyrrau o bren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.

3.5.4 Sicrhau y caiff datblygiadau eu llywio gan ardaloedd cymeriad neilltuol yr Ardal Gadwraeth, a'u bod yn gydwedd â hwy, ac yn ystyried tystiolaeth arall o gymeriad hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd y cyffiniau.

3.5.5 Sicrhau y bydd cynigion datblygu'n gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

3.5.6 Gweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithredu prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.

3.5.7 Annog datblygiad i gynnwys camau cyfrannu'n adeiladol at fioamrywiaeth gyfan yr ardal.

3.5.8 Gwella seilwaith gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth neu gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

# 4.0 Ymgynghoriad

4.1.1 Bu drafft Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth yn destun ymgynghoriad i'r canlynol:

- Cyngor Cymuned Beddgelert (29/11/2021)
- Trwy wefan y Parc Cenedlaethol.

# Atodiadau:

## Atodiad A - Ffynnonellau

Y prif ffynonellau gwybodaeth gyhoeddedig a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu'r Arfarniad hwn fu:


Cosgrove, J. a Talbot, J. *The Roadside Geology of Wales* (Geologists Assoc. 69), Geologists Association, 2017.

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association ym 1917)

Gresham, C. A. (1969), *Parish of Beddgelert*, yn Nhrafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, cyf. 30, tt. 21-28

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester)

Gwyn, D *Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry (CBHC 2015).*

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11) (argraffiad 1952).*

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Hughes H a North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Jenkins, D, *Beddgelert, its Facts, Fairies and Folklore,* Llewellyn Jenkins, Porthmadog, 1899.

Johnson, P, *An Illustrated History of the Welsh Highland Railway,* Crecy, 2002.

Lewis, S, *A Topographical Dictionary of Wales* (London), 1849

Lynch, Frances, *A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd*, HMSO, 1995.

Pennant, T. (1781), A *Tour in Wales* (London) (1773-76), *Cafwyd mynediad trwy: https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales*

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. a Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) adroddiad rhif 1036 (Voelcker, A a Robertson, A*), Beddgelert Draft Conservation Area Appraisal*, 2012.

# Atodiad B – Cyfarwyddyd Erthygl 4 Presennol

Dyddiad.....

**CYFARWYDDYD TRWY ERTHYGL 4(2) O RHEOLIADAU DATBLYGIAD CANIATAËDI CYFFREDINOL 1995 YN CYFYNGU HAWI DATBLYGIAD CANIATAËDIG ARDAL CADWRAETH BEDDGELERT**

**DIRECTION UNDER ARTICLE 4(2) OF THE GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT ORDER 1995 RESTRICTING PERMITTE DEVELOPMENT IN THE BEDDGELERT CONSERVATION AREA**

Iwan G D Evans
Cyfreithiwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth
GWYNEDD

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF, 1990**

**GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD CANIATAËDIG CYFFREDINOL) 1995**

**CYFARWYDDYD TRWY ERTHYGL 4(2) O'R RHEOLIADAU DATBLYGIAD CANIATAËDIG CYFFREDINOL 1995 YN CYFYNGU HAWLIAU DATBLYGIAD CANIATAËDIG ARDAL CADWRAETH BEDDGELERT**

CEFNDIR

1. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ("yr Awdurdod) yn Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y tir a amlinellir yn y Cyfarwyddyd.

2. Mae'r Awdurdod yn fodlon ei fod yn briodol na ddylai'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygiad Caniataëdig Cyffredinol 1995 ("y Gorchymyn") ac a amlinellir yn y Cyfarwyddyd yma gael ei weithredu heblaw gyda caniatâd a roddir ar ei gyfer trwy gais.

GAN HYNNY mae'r Awdurdod trwy Erthygl 4(2) o'r Gorchymyn a phob grym arall sydd yn caniatáu

YN CYFARWYDDO:

1. Na fydd y caniatâd a roddir trwy Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn weithredol ar gyfer datblygiad a fanylir yn yr Atodlen Gyntaf i'r Cyfarwyddyd yma o fewn yr ardal a amlinellir yn yr Ail Atodlen i'r Cyfarwyddyd ("y Tir").

2. Daw'r Cyfarwyddyd, yn unol ag Erthygl 6(3) o'r Gorchymyn, i rym ar gyfer unrhyw ran o'r Tir ar y dyddiad y cyflwynir rhybudd o wneud y Cyfarwyddyd ar feddiannwr y rhan yna o'r Tir neu, os nad oes meddiannwr, y perchennog. Os yw'r Awdurdod o'r farn nad yw cyflwynon unigol ar berchnogion neu feddianwyr y tir yn ymarferol oherwydd fod eu nifer yn gwneud hyn yn anymarferol neu ei bod yn anodd adnabod neu gael hyd i un neu fwy ohonynt, cyhoeddir rhybudd o wneud y Cyfarwyddyd gan yr Awdurdod mewn papur newydd sydd yn cylchredeg o fewn yr ardal ble lleolir y Tir ac yn unol ag Erthygl 6(3) o'r Gorchymyn daw'r Cyfarwyddyd yma i rym ar y dyddiad y cyhoeddwyd y rhybudd am y tro cyntaf.

3. Derfu'r Cyfarwyddyd yma ar ddiwedd cyfnod o chwe mis o'r dyddiad y'i gwneir heblaw ei fod wedi ei gadarnhau gan yr Awdurdod yn unol ag Erthygl 6(8) a (9) o'r Gorchymyn.

## YR ATODLEN GYNTAF

Datblygiad yn disgyn o fewn y dosbarthiadau canlynol o Atodlen 2 i'r Gorchymyn.

Yn yr Atodlen yma golygai "Lleoliad Perthnasol" briffordd (sydd heb ragfarn i gyffredinoldeb y term yn cynnwys ffyrdd a llwybrau), camlas neu dir agored.

| Arwyddnod | Disgrifiad |
|---|---|
| RHAN 1 | |
| Dosbarth A | Ehangu, gwella neu wneud newidiadau eraill i anhedd-dy ble mae unrhyw ran o'r ehangiad, gwelliant neu newidiadau yn gwynebu ar Leoliad Perthnasol. |
| Dosbarth C | Newidiadau i do anhedd-dy ble y mae'r newidiadau i lethr to sydd yn gwynebu ar Leoliad Perthnasol. |
| Dosbarth D | Codi neu adeiladu ports tu allan i unrhyw ddrws allanol anhedd-dy ble byddai'n gwynebu ar Leoliad Perthnasol. |
| Dosbarth E | Darparu unrhyw adeilad, lle caeëdig, pwll nofio neu bwll arall o fewn cwrtil anhedd-dy sydd ei angen ar gyfer defnydd is-wasanaethol i fwynhad yr anhedd-dy fel anhedd-dy neu gynnal, gwella neu unrhyw newid arall i'r fath adeilad neu fan caeëdig ble byddai'n gwynebu ar Leoliad Perthnasol. |
| Dosbarth F | Darparu gwyneb caled o fewn cwrtil anhedd-dy ble byddai'n gwynebu ar Leoliad Perthnasol, |
| Dosbarth H | Gosod, newid neu adnewyddu dysgl lloeren ar anhedd-dy neu o fewn ei gwrtil ble byddai'n gwynebu Lleoliad Perthnasol. |
| RHAN 2 | |
| Dosbarth A | Codi, adeiladu, cynnal, gwella neu newid giât, ffens, wal neu fodd arall o amgau o fewn cwrtil anhedd-dy ble byddai'n gwynebu ar Leoliad Perthnasol. |

## YR AIL ATODLEN

Ardal Gadwraeth Beddgelert a dangosir ei ffiniau ag ymyl goch ar y cynllun cysylltiedig.

# TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT, 1990

## TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT) ORDER 1995

## DIRECTION UNDER ARTICLE 4(2) OF THE GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT ORDER 1995 RESTRICTING PERMITTED DEVELOPMENT IN THE BEDDGELERT CONSERVATION AREA

RECITALS

1. The Snowdonia National Park Authority ("the Authority") is the local planning authority in respect of the area of land specified in this Direction.

2. The Authority is satisfied that it is expedient that the development described in Schedule 2 to the General Permitted Development Order 1995 ("the Order") and specified in this Direction should not be carried out unless permission is granted for it on an application.

NOW THEREFORE the Authority in pursuance of Article 4(2) of the Order and all other powers thereby enabling

DIRECTS THAT :

1. The permission granted by Article 3 of the Order shall not apply to development specified in the First Schedule to this Direction in the area specified in the Second Schedule to this Direction ("the Land").

2. The Direction shall, in accordance with article 6(3) of the Order, come into force in respect of any part of the Land on the date on which notice of the making of the Direction is served on the occupier on that part of the Land or, if there is no occupier the owner. If the Authority consider that individual service on the owners or occupiers of the Land is impracticable because the number of them makes such impracticable or it is difficult to identify or locate one or more of them, the Authority shall publish a notice of making of the Direction in a newspaper circulating in the locality in which the Land is situated and, in accordance with article 6(3) of the Order, the Direction shall come into effect on the date on which the notice is first published.

3. This Direction shall expire at the end of six months from the date on which it is made unless confirmed by the Authority in accordance with Article 6(8) and (9) of the Order.

## FIRST SCHEDULE

Development falling within the following classes of Schedule 2 to the Order.


In this Schedule "Relevant Location" means a Highway (which without prejudice to the generality of the term includes both roads and footpaths), waterway or open space.

| Designation | Description |
|---|---|
| PART 1 | |
| Class A | The enlargement, improvement or other alteration of a dwellinghouse, where any part of the enlargement, improvement or alteration would front a Relevant Location. |
| Class C | Alteration to the roof of a dwellinghouse where the alteration would be to a roof slope which fronts a Relevant Location |
| Class D | The erection or construction of a porch outside any external door of a dwelling house where it would front a Relevant Location |
| Class E | The provision within the curtilage of a dwellinghouse of any building or enclosure swimming or other pool required for a purpose incidental to the enjoyment of the dwellinghouse as such or the maintenance, improvement or other alteration of such a building or enclosure where it would front a Relevant Location. |
| Class F | The provision within the curtilage of a dwellinghouse of a hard surface where it would front a Relevant Location. |
| Class H | The installation, alteration or replacement of a satellite antenna on a dwelling or within its curtilage where it would front a Relevant Location |
| PART 2 | |
| Class A | The erection, construction, maintenance, improvement or alteration of a gate, fence, wall or other means of enclosure where it would be within the curtilage of a dwelling house and would front a Relevant Location |

## SECOND SCHEDULE

The Beddgelert Conservation Area the boundaries of which are shown edged red on the Plan Annexed hereto.

# ARDAL CADWRAETH ● CONSERVATION AREA



000723

RHODDWYD DAN SÊL GYFFREDINOL
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

GIVEN UNDER THE COMMON SEAL
of THE SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

ar y dydd o 2000

on the 12th day of September 2000

000724

Yng ngwŷdd
Before me

Swyddog Selio Cymwysedig
Authorised Sealing Officer

